# Trin Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD) ac Anhwylder Straen Wedi Trawma Cymhleth (CPTSD)

## Canllawiau Triniaeth

Mae dau ganllaw triniaeth sy’n casglu, yn gwerthuso ac yn asesu'r holl ymchwil gyfoes sydd ar gael. Fel hyn, rydyn ni’n gwybod pa ymyriadau sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol wrth helpu plant a phobl ifanc gydag Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD) ac Anhwylder Straen Wedi Trawma Cymhleth (CPTSD).

### NICE ac ISTSS

Mae’r ddau ganllaw triniaeth wedi eu llunio gan Bwyllgor y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yng Nghymru a Lloegr (NICE) a Phwyllgor y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Astudiaethau Straen wedi Trawma (ISTSS).

### Seico-addysg

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg fod rhai mathau o seico-addysg yn helpu i atal Anhwylder Straen Wedi Trawma rhag datblygu. Mae ymchwil yn mynd rhagddi yn y maes hwn. Nod seico-addysg yw darparu gwybodaeth gywir am drawma a straen trawmatig, yn ogystal â chynnig neges obeithiol ei bod hi’n bosib gwella.

### Adrodd Seicolegol

Mae NICE ac ISTSS yn cytuno na ddylai Adrodd Seicolegol (sef darparu cymorth seicolegol ffurfiol yn syth ar ôl digwyddiad trawmatig) gael ei argymell, a gallai’r dull hwn fod yn niweidiol.

## Therapïau seicolegol ar gyfer trin Anhwylder Straen Wedi Trawma

### Crynodeb o'r dystiolaeth

Mae'r ddau ganllaw’n cytuno'n fras y dylai Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT) sy’n Canolbwyntio ar Drawma (CBT-T neu TF-CBT) gael ei argymell fel dull cychwynnol o drin Anhwylder Straen Wedi Trawma ymhlith plant a phobl ifanc. Mae ISTSS hefyd yn argymell Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid (EMDR) fel triniaeth gychwynnol effeithiol. Mae NICE yn argymell Therapi EMDR fel ail ymyrraeth a dim ond os bydd CBT-T yn aneffeithiol.

### Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT) sy'n Canolbwyntio ar Drawma (CBT-T neu TF-CBT)

Therapi siarad yw CBT-T sy’n cael ei ddarparu gan therapydd medrus. Mae hwn yn effeithiol ar gyfer trin Anhwylder Straen Wedi Trawma ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae nifer o rannau craidd i CBT-T a'r nod yw helpu i roi'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen ar rieni neu ofalwyr i helpu eu plentyn i ymdopi â symptomau straen trawmatig ac felly i wella eu lles a'u gweithrediad cyffredinol. Mae Therapi Gwybyddol Ymddygiadol, neu CBT, yn cynnwys astudio eich meddyliau ac edrych ar sut mae meddyliau'n effeithio ar emosiynau ac ymddygiadau. Gall CBT-T helpu i atal symptomau Anhwylder Straen Wedi Trawma, fel ail-ymweld â'r digwyddiad trawmatig neu ymddygiadau osgoi, ac arwain at newid mewn ymddygiadau fel dicter ac anniddigrwydd.

Mae'r gwelliannau hyn yn parhau dros gyfnod. Elfennau CBT-T yw:

- Sgiliau seico-addysg a rhianta (gan gynnwys dysgu beth yw ymatebion arferol i drawma)
- Ymlacio
- Rheoli affeithiol
- Prosesu’r trawma’n wybyddol
- Naratif y trawma
- Goresgyn pethau mewn bywyd pob dydd sy’n atgoffa o drawma
- Sesiynau i rieni a phlant ar y cyd
- Gwella diogelwch a datblygiad yn y dyfodol

### Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid (EMDR)

Seicotherapi yw hwn sy’n gallu bod yn effeithiol ar gyfer trin Anhwylder Straen Wedi Trawma ymysg oedolion a phlant. Mae’r ymennydd yn gallu storio atgofion trawmatig mewn ffordd anghywir neu mewn ffordd sydd heb gael ei phrosesu. Oherwydd hyn, mae sbardunau'r trawma yn gallu arwain at ail-ymweld â'r digwyddiad trawmatig fel pe bai'n dal i ddigwydd, er enghraifft drwy ôl-fflachiadau neu hunllefau. Mae’r therapi hwn yn helpu i brosesu'r cof i wneud yn siŵr nad oes yr un 'wefr' emosiynol gyda’r cof mwyach. Mae therapi Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid yn cael ei ddarparu gan therapydd medrus yn y maes sy'n defnyddio symbyliadau dwyochrog, fel symud y llygaid yn gyflym (ond gallai hyn ddigwydd drwy dapio’r corff ar ddwy ochr neu glywed synau o ddau gyfeiriad) er mwyn lleihau’r trallod sy’n ymwneud ag atgofion gwael. Nid hypnosis yw’r therapi hwn a dydy moddion ddim yn cael ei gynnig chwaith.

## Therapïau seicolegol ar gyfer trin Anhwylder Straen Wedi Trawma Cymhleth

Hyd yn hyn, dydy ymchwil ddim yn dangos yn glir p’un a oes angen math gwahanol o driniaeth ar blant a phobl ifanc gydag Anhwylder Straen Wedi Trawma Cymhleth i'r rheiny gydag Anhwylder Straen Wedi Trawma er mwyn iddyn nhw wella. Mae gwaith ymchwil a datblygu yn mynd rhagddo yn y maes hwn.

Yn ôl yr argymhellion cyfredol, gallai'r ymyriadau ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma ymysg plant a phobl ifanc fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer trin Anhwylder Straen Wedi Trawma Cymhleth.

Mae angen rhagor o astudiaethau ymchwil er mwyn cadarnhau pa foddion allai fod o gymorth i blant a phobl ifanc gyda symptomau straen trawmatig.